

From: Parry, Martin (KAS)
Sent: 23 March 2016 10:17
To: Cefin Campbell
Cc: Penri, Awen (EPS - WLD); Thomas, Branwen (EPS - WLD)
Subject: ATB/RE: Y Gymraeg yn y Sector Addysg Bellach

Helo Cefin,

Diolch am eich neges. Yn ôl yr hyn rwy'n deall, gwnaed y penderfyniad ar yr amser i gyfuno gweithgareddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn adroddiadau blynyddol Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg gan mai darpariaeth ddwyieithog mae'r colegau addysg bellach yn darparu yn bennaf. Fel i chi weld ar ein gwefan StatsCymru, mae'r niferoedd sydd yn ymgymryd â gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn fychan felly o ran ymarferoldeb wrth gyhoeddi data ar sail canrannau, cyfunir gweithgareddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Gobeithio bod hyn yn rhywfaint o help i chi yn eich adroddiad.

Diolch,

Martin Parry

Uwch-swyddog Ystadegol yr Iaith Gymraeg | Senior Welsh Language Statistical Officer
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi | Knowledge and Analytical Services
Llywodraeth Cymru | Welsh Government

www.llyw.cymru/ystadegau | www.gov.wales/statistics
www.twitter.com/ystadegaucymru | www.twitter.com/statisticswales

From: Cefin Campbell
Sent: 22 March 2016 10:09
To: Parry, Martin (KAS)
Subject: Y Gymraeg yn y Sector Addysg Bellach

Annwyl Martin,

Cafodd Ymgynghoriaeth Sbectrwm gomiswn yn ddiweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg i gynnal arolwg o sefyllfa gyfredol addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg bellach.

Rwyf wedi bod yn edrych yn fanwl ar y data a gyhoeddir yn Adroddiadau Blynyddol y Llywodraeth ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r data a gyhoeddir gan Stats Cymru ar faint o ddysgwyr sy'n astudio cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ein colegau addysg bellach ac ar raglenni dysgu yn seiliedig ar waith. Mae'n ddiddorol nodi bod y data yn yr Adroddiadau Blynyddol yn cyfuno dysgu Cymraeg a dwyieithog tra bod Stats Cymru'n eu cyhoeddi ar wahan. Fy nghwestiwn yn syml yw pam mae hyn yn digwydd?

Byddwn yn gwerthfawrogi esboniad er mwyn egluro'r rhesymau am yr anghysondeb yn yr adroddiad i'r Comisiynydd.

Gyda llawer o ddiolch.

Cefin Campbell.

Cefin Campbell

Rheolwr Gyfarwyddwr/*Managing Director*
Ymgynghoriaeth Sbectwm